



Gwybodaeth am Raglen ARWEINYDD y RhDG

Rhaglen Datblygu Gwledig

Ariennir y Rhaglen Datblygu Gwledig trwy'r Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan y Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Blaenoriaethau'r rhaglen **yn ei chyfanrwydd** yw:

- Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesed mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig
- Gwella cystadleuaeth rhwng pob math o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd ffermydd
- Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth
- Adfer, diogelu a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth
- Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r symud tuag at garbon isel ac economi sy'n gadarn yn erbyn yr hinsawdd mewn sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth
- Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig

ARWEINYDD 2014-2020

Yn lleol, mae'r rhaglen ARWEINYDD Datblygu Gwledig (term a ddefnyddir i ymgorffori'r agwedd datblygu cymunedol ar y rhaglen) yn cynnwys naw adran etholiadol ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, ar y cyd o'r enw Gweithredu Gwledig Cwm Taf. Yn hytrach na chyflwyno prosiectau mewn modd cystadleuol fel y digwyddodd yn y rhaglen ddiwethaf, rydym wedi cael dyraniad arian y mae Grŵp Gweithredu Lleol Cwm Taf Gwledig, Bwrdd o gynrychiolwyr diduedd, yn gyfrifol am ei weinyddu dan reolaeth y Corff Gweinyddu Arweiniol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Cyfanswm dyraniad Merthyr Tudful/Rhondda Cynon Taf yw **£897,409.50** sydd ar gael ar gyfer prosiectau refeniw rhwng 2015 – 2021.

Yr adrannau etholiadol sy'n gymwys am y gronfa hon yw:

- Bedlinog
- Cyfarthfa
- Maerdy
- Ynysowen
- Plymouth (Ward Wasanaethu)
- Rhigos
- Treharris (Ward Gartref)
- Faenor
- Ynysybwl

Cysylltwch â'r Cydlynnydd Gweithredu Gwledig os ydych yn dymuno cynnal prosiectau mewn ward wasanaethu neu ward gartref.

Dylai unrhyw brosiect wasanaethu cymunedau mewn mwy nag un ward wledig. Rhaid iddynt geisio ymdrin â'r canlynol:

- Tlodi Gwledig
- Iechyd
- Y Gymraeg/Cydraddoldeb
- Ucheldiroedd (am eglurhad o hyn mae gennym fap sy'n amlinellu'r ardaloedd hyn)
- Cymunedau gwledig cadarn/cynaliadwy

Mae angen i'r prosiectau a gynigir sefyll o dan un neu fwy o'r themâu canlynol:

- Archwilio Technoleg Ddigidol
- Ynni Adnewyddadwy ar lefel gymuned
- Ychwanegu Gwerth at Hunaniaeth Leol ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol
- Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol
- Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr

Nid yw prosiectau'n debygol o fod yn gymwys os ydynt yn cyd-daro â'r cynlluniau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu'u rhoi ar waith. Ni ddylent ddyblygu gwaith cynlluniau parod ond gallant gefnogi/ychwanegu atynt ac mae angen iddynt fod yn ymyriadau newydd yn hytrach na pharhad prosiectau presennol.

Nodwch **nid cynllun grantiau** yw hyn a fydd yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i sefydliadau/mentrau. Ni all y gronfa ARWEINYDD ddarparu cefnogaeth fel hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru'n gweinyddu nifer o raglenni'n uniongyrchol. Os oes angen busnes, menter neu gefnogaeth sefydliadol uniongyrchol arnoch cysylltwch â'r cydlynnydd datblygu gwledig a fydd yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am gynlluniau Llywodraeth Cymru yn ogystal ag arian posibl arall a allai fod ar gael i chi. Edrychwch hefyd ar y ddogfen Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yn y pecyn hwn.

Y Strategaeth Datblygu Lleol

Rydym wedi cyflwyno Strategaeth Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru ac wedi sefydlu Grŵp Gweithredu Lleol Cwm Taf Gwledig i gyfarwyddo'r rhaglen. Caiff ei gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a fydd yn monitro, cyflwyno ceisiadau ac yn brif bwynt cyswllt y rhaglen.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar draws yr ardal gyfunol a bydd hyn yn parhau dros gyfnod y rhaglen, gyda'r strategaeth datblygu lleol yn newid yn flynyddol i adlewyrchu unrhyw newid yn yr angen a nodwyd ar gyfer ein cymuned wledig.

Os ydych yn llwyddo i barhau i'r cam gwneud cais, bydd angen i chi gyfeirio at sut mae'ch prosiect yn cydweddu â'r Strategaeth Datblygu Lleol. Gallwch weld y ddogfen hon ar www.merthyr.gov.uk/rdp neu ofyn am gopi gan y Cydlynnydd Datblygu Gwledig (gweler y manylion cyswllt isod).

Os ydych yn dymuno cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau neu os ydych yn dymuno bod ar restr ddosbarthu'r rhanddeiliaid e-bostiwch joanne.nicholas@merthyr.gov.uk